GWAHODDIAD

Ymunwch â ni ar Daith Gerdded Niclas y Glais

Yn Nhanygrisiau, Blaenau Ffestiniog

10.30 y bore Ionawr 19eg, 2019

- I ddathlu cysylltiad T.E. Nicholas gyda'r ardal, byddwn yn gwneud casgliad tuag at Gofeb i Niclas yr Heddychwr a 'Bardd y Werin': y gofeb i'w gosod ger ei fan geni yn Sir Benfro. (*Croeso hefyd i gerddwyr gasglu nawdd)*

- Bydd y thêm o Heddychiaeth ac Addysg y Werin yn mynd â ni heibio mannau diddorol sy'n gysylltiedig â nifer o gyn-drigolion dylanwadol Tanygrisiau.

- Bydd rhannau o'r daith ar dir creigiog a rhannau yn y pentref. Bydd y daith gyfan yn 5 milltir, ond bydd digon o opsiynau i ymuno â rhannau yn unig

- Y bwriad ydi gorffen yng Nghaffi'r Llyn, Tanygrisiau ar gyfer sesiwn anffurfiol am Niclas ac Arddangosfa fechan.

- I nodi eich diddordeb a chael diweddariadau (am y tywydd a ballu), gyrrwch eich manylion i:-

  Iona: 07960505643 / 01766830127
  Bini: 07786516771

Edrychwn ymlaen at fwynhau eich cwmni

Y DAITH A MANNAU YMUNO

❖ = Mannau ac Amseroedd Ymuno

❖ 10.30 Man cychwyn –

Maes parcio ar ochr y ffordd i Bwerdy Tanygrisiau,

tua hanner milltir o'r gyffordd o'r A496

(Caffi'r Llyn **(LL41 3TP)** ychydig ymhellach ymlaen yn agor am 9.00 i'r rhai sydd am gyfarfod dros frecwast cyn cychwyn)

Dechrau cerdded ar draws Moel Ystradau a heibio Cefn Trwsgl i Lys Dorfil
(Safle archeolegol ac un o'r mannau arbennig yn hanes Tanygrisiau: Gweler BROcast Ffestiniog- Google)

- **11.15** I'r rhai sydd am ymuno am y darn yma, gellir parcio ceir yn yr arosfa ar yr A496 ger Dolwen, i gyfeiriad Maentwrog. Cewch eich tywys am chwarter awr (ar dir gwastad a wedyn rhyw ganllath llai gwastad ar laswellt) i **Lys Dorfil** i ymuno â Cherddwyr y Brif Daith.

- **12.30** Cerddwyr y Brif Daith yn ôl ger Llyn Tanygrisiau- (Awgrymir dod a diod a brechdanau ar gyfer seibiant yma)

- **1.00** Cymal y prynhawn yn cychwyn o stesion Rheilffordd Ffestiniog yn cerdded ar i fyny- (*rhannau yn anwastad, corsiog a chreigiog)*

- **2.00** Man Ymuno ger Melin Moelwyn (LL41 3RG) ar y ffordd trwy bentref Tanygrisiau

- **3.30** Caffi'r Llyn (LL41 3TP) - Cyflwyniadau am Niclas ac Arddangosfa